# SL(5)020 – Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016 (Cyflwynwyd yn Saesneg yn unig)

## Cefndir a Phwrpas

Mae'r Rheoliadau [Cyflwynwyd yn Saesneg yn unig] hyn yn cydgrynhoi Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2010 (O.S. 2010/675) [Cyflwynwyd yn Saesneg yn unig] a nifer o welliannau dilynol mewn un gyfres o reoliadau. Mae'r Rheoliadau hyn yn cynnal y drefn trwyddedu amgylcheddol a chydymffurfio a sefydlwyd ar gyfer amrywiaeth o weithgareddau a diwydiannau.

## Gweithdrefn

Cadarnhaol

## Craffu Technegol

Nodir un pwynt i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn, sef:

> Rh.S. 21.2 (ix): Mae'r Rheoliadau wedi'u gwneud yn Saesneg yn unig. Gwnaed y rheoliadau ar sail Cymru a Lloegr.

Mae'r Rheoliadau yn cynnwys diwygiadau yn y Gymraeg a wneir i rai darnau o is-ddeddfwriaeth sy'n gymwys i Gymru yn unig. Mae anghysondebau mewn rhai achosion rhwng y diwygiadau a wneir i fersiynau Cymraeg a Saesneg yr offerynnau hyn gan y Rheoliadau. Y rheswm am hyn yw bod deddfwriaeth ddiwygio flaenorol wedi diwygio'r testun Saesneg yn unig a heb ddiwygio testun Cymraeg yr offerynnau perthnasol. Roedd hyn yn golygu bod fersiynau Cymraeg a Saesneg yr offerynnau hyn yn arfer bod yn anghyson. Mae'r Rheoliadau hyn yn ceisio unioni'r anghysondeb hwnnw.

## Craffu ar rinweddau

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Ymateb y Llywodraeth

Ymateb i'r pwynt a godwyd gan Gynghorwyr Cyfreithiol y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol.

Rheol Sefydlog 21.2(ix) – nid ydynt wedi eu gwneud yn ddwyieithog

- Mae'r Rheoliadau cyfansawdd hyn ("Rheoliadau 2016") yn cydgrynhoi Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2010 (O.S. 2010/675) a nifer o offerynnau diwygio dilynol i mewn i un Offeryn. Mae Rheoliadau 2016 yn cynnal y drefn trwyddedu amgylcheddol a chydymffurfio sefydledig.

- Mae Rheoliadau 2016 yn gymwys i Gymru a Lloegr ac yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Senedd y Deyrnas Unedig. Yn unol â hynny, ystyriwyd nad oedd yn rhesymol ymarferol i'r Offeryn hwn gael ei osod, na chael ei wneud, yn ddwyieithog.

- Mae'r adroddiad drafft yn nodi bod rhai anghysondebau rhwng diwygiadau i destunau Cymraeg a Saesneg is-ddeddfwriaeth Gymreig arall. Mae hyn yn cyfeirio at baragraffau 17 a 24 o Ran 2 o Atodlen 29 i Reoliadau 2016. Mae'r paragraffau hyn yn cynnwys diwygiadau canlyniadol i offerynnau statudol sy'n gymwys i Gymru yn unig (Rheoliadau Gwastraff Peryglus (Cymru) 2005 a Rheoliadau Tir Halogedig (Cymru) 2006). Fel y nodwyd yn yr adroddiad drafft, roedd deddfwriaeth ddiwygio flaenorol yn diwygio testun Saesneg yr Offerynnau hynny yn unig, gan arwain at anghysondebau rhwng y testunau Cymraeg a Saesneg. Nod y Rheoliadau hyn yw unioni'r anghysondebau hynny drwy wneud testunau Cymraeg a Saesneg yr Offerynnau hynny yn gyfwerth unwaith eto. Mae angen gwneud hyn er mwyn rhoi effaith i'r newidiadau canlyniadol sy'n cael eu gwneud o ganlyniad i Reoliadau 2016.

## Trafodaeth Bwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 14 Tachwedd 2016. Bydd y Pwyllgor yn cyflwyno adroddiad i'r Cynulliad yn unol â'r pwynt adrodd uchod. Rydym yn pwysleisio'r pwysigrwydd o gynnal safonau uchel o ran deddfwriaeth ddwyieithog.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**
**14 Tachwedd 2016**